# Pencampwriaethau Rasio Ffordd Cenedlaethol Lloyds 2025
## Cau Ffyrdd a Chyfyngiadau Parcio i ddod

Mae Ceredigion yn falch o groesawu Pencampwriaethau Rasio Ffordd Cenedlaethol Lloyds eleni. Bydd rhai ffyrdd ar gau am gyfnodau o amser yn ystod y cyfnod 26-29 Mehefin yn Aberaeron ac Aberystwyth.

Gweler y wybodaeth isod i gynorthwyo trigolion a busnesau yr effeithir arnynt gyda gwybodaeth benodol.

I weld sut yr effeithir ar eich ffordd, gwiriwch y mapiau sy'n amlygu'r strydoedd yr effeithir arnynt.

Bydd yr holl balmentydd yn aros ar agor bob amser ac felly mae mynediad i gerddwyr yn cael ei gynnal a'i groesawu. Bydd unrhyw gerbydau sy'n cael eu gadael ar y briffordd ar lwybr y ras (gwyrdd/melyn ar y map) gan gynnwys y rhai yn y mannau parcio dynodedig yn cael eu tynnu i ffwrdd. Mae mannau croesi wedi'u nodi ar y map (llwybr Aberystwyth yn unig).

**Dydd Gwener 27 Mehefin - Pencampwriaethau Rasio Cylchdaith Cenedlaethol Lloyds - Aberystwyth. Ffyrdd ar Gau 11:00-22:00**

**Dydd Sadwrn 28ain Mehefin - Pencampwriaethau Rasio Cylchdaith Cymru - Aberystwyth. Ffyrdd ar Gau 07:00-19:00**




Sganiwch y cod QR neu defnyddiwch y manylion cyswllt isod am fanylion llawn:

Gwefan - **www.ceredigion.gov.uk/preswyliwr/twristiaeth-a-hamdden/pencampwriaethau-seiclo/**

Ffon : **01545 570881**

Ebost : **clic@ceredigion.gov.uk**

***Diolch am eich dealltwriaeth wrth ein helpu i groesawu digwyddiad Prydeinig mawr arall i Geredigion.***

Beicio Cymru · Ariennir yn Rhannol gan Lywodraeth Cymru / Part Funded by Welsh Government · gŵyl seiclo aber / aber cycle fest · Cyngor Sir Ceredigion County Council · British Cycling · Ceredigion Actif

**Dydd Sul 29 Mehefin - Pencampwriaethau Ras Ffordd Cenedlaethol Lloyds - Aberystwyth.**
**Ffyrdd ar Gau 08:00-20:00**




**Dydd Iau 26 Mehefin - Pencampwriaethau Treial Amser Cenedlaethol Lloyds**
**Aberaeron. Ffyrdd ar Gau 08:00-20:00**




Bydd mynediad ac allanfeydd preswylwyr yn cael eu heffeithio rhwng 08:50 o'r gloch a 17:00 o'r gloch. Bydd llwybr dargyfeirio wedi'i arwyddo yn ei le ar gyfer traffig yr A482. Bydd cyfnod rhwng 12:45 a 13:40 pan fydd ffyrdd yn agor i ganiatáu mynediad i eiddo lleol.

**Llwybr ras goch - Yn ystod yr amseroedd cau a nodir, ni chaniateir i gerbydau barcio ar y briffordd gan gynnwys mewn mannau parcio dynodedig. Bydd cerbydau'n cael eu tynnu i ffwrdd.**